

# Y Casglwr


Rhif 73

Pris i'r aelodau: £7.50 y flwyddyn • Pris i'r cyhoedd: £3.50 y rhifyn

GAEAF 2001

## Ffair Lyfrau y Gymdeithas yn y Bala

Daeth rhai cannoedd i'r Bala ar Sadwrn olaf mis Medi yn y gobaith o gael gafael ar gyfrol brin, neu fargen hyd yn oed. Ni chawsant eu siomi. Braff oedd gweld cymaint o bobl yn mwynhau eu hunain ac yn cael sgwrs dros baned. Agorwyd y Ffair Lyfrau yn swyddogol gan Gerallt Pennant ac yn ei anerchiad soniodd am y teithwyr hynny a ymwelodd â'r Bala yn ystod diwedd y ddeunawfed ganrif a thrwy gydol y bedwaredd ganrif ar bymtheg, rhai megis Arthur Aikin, Thomas Pennant a'u tebyg, a sut y cyfeirient at y llyn fel Pemblemere. Ond diolchodd y siaradwr mai Llyn Tegid yw ei enw, heddiw beth bynnag! Bu cynnydd yn y nifer o stondinwyr ac ymwelwyr eleni eto a hoffwn ddiolch i'r aelodau ac i'r llyfrwerthwyr hynny sy'n hysbysebu yn gyson yn Y Casglwr am eu cefnogaeth. Hebddynt hwy ni fyddai'r Ffair yn bosibl.



Gerallt Pennant – Y gŵr gwadd. Llun: Evan Dobson, Y Bala.



Allwch chi enwi'r llyfrbryfed? Llun: Evan Dobson, Y Bala.

Cofiwch am wefan Y Casglwr ar  
[www.geocities.com/casglwr](http://www.geocities.com/casglwr)  
Os ydych am gyfrannu iddo, gyrrwch eich  
pytiau at y golygydd drwy'r ebost  
[tanycastell@yahoo.com](mailto:tanycastell@yahoo.com)